

Sul y Gwahanglwyf

Darlleniad: Luc 5: 1-16

O! Dduw ein Tad, deawn ger dy fron yn enw dy Fab a estynnodd ei law a chyffwrdd â dyn gwahanglwyfus. Er ei fod yn llawn o'r gwahanglwyf, nid ymataliodd rhag cyffwrdd ag ef. Trwy ei gyffyrddiad iachusol, fe iachawyd cawd y gwahangleifion.

Llawenhawn, O! Dad, am i gyfeillion Iesu weithredu'r un mor fentrus hyd at ein dyddiau ni. Gogoneddwn dy enw am iti roi'r adnoddau meddygol i'th bobl fedru iacháu pob un sy'n dioddef o'r haint echrydus hwn yn ein byd heddiw. Dyro inni awydd i wneud popeth yn ein gallu i gynnal eu breichiau yn y frwydr hon. Llanw ein calonnau â thosturi a haelioni fel y gellir darparu digon o gyffuriau i gwrdd ag angen pob un sy'n dioddef rhaib y gwahanglwyf, a'i waredu o'i afiechyd blin. Gweddiwn am i'r gwledydd lle gwelir y gwahanglwyf hyrwyddo'r ffordd i'r cyffuriau meddygol hyn gyrraedd pob dinas, pob pentref a phob cartref lle bo'u hangen. Diolchwn am ymroddiad pob un a fu'n datblygu'r cyffuriau hyn a gweddiwn am dy fendith di ar bob clinig ac ysbyty sy'n trin y gwahanglwyfus. Yng ngrym cyffyrddiad Iesu byw, gwared ein byd o'r aflwydd hwn, a rho galon a genau diolchgar i bob un a iacheir.

Diolchwn i ti, O! Dad pawb oll, am feiddgarwch Iesu yn estyn ei law i gyffwrdd â'r anghyffyrddadwy. Hyd at ein dyddiau ni, bu'n duedd i neilltuo'r rhai a drawyd â'r gwahanglwyf a'u cadw ar wahân. Maddau inni am barhau'r duedd hon er i Iesu danseilio'r hen arferiad ugain canrif yn ôl. Molwn di am Iesu Grist a ddug y sawl a adawyd o'r neilltu yn ôl i gymdeithas lawn â'u cyd-ddynion. Gweddiwn yn awr dros bob un sy'n teimlo'n wrthodedig gan ei deulu neu ei gymdeithas yn ein gwlad a'n byd heddiw. Gofynnwn i ti faddau inni am fod mor barod i wahaniaethu rhyngom ni a nhw. Gwna ni'n gyfryngau hedd a chymod; helpa ni i ehangu ein cortynnau fel y medrwn gyfrif mwy a mwy o'th anwyliaid di

ymhlith y 'ni'. Dilea wahanfuriau rhagfarn, cred, lliw, iaith, cenedl a hil o'n plith a dyro i ni i gyd brofiad byw o gael ein cynnwys yng nghymundeb diwarafun y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.

Bendigwn dy enw nid yn unig am i Iesu roi iachâd corfforol a chymdeithasol i'r dyn gwahanglwyfus, ond am iddo roi iachawdwriaeth ysbrydol iddo. Cyffyrddodd y glân â'r aflan a'i wneud yn lân; cyffyrddodd y dwyfol â'r dynol a'i sancteiddio; cyffyrddodd yr ysbrydol â'r materol a'i gysegru; cyffyrddodd y nefol â'r daearol a'i gyfannu. Diolch i ti, O! Dad, am wyrth yr ymgnawdoliad yn Iesu Grist. I ganol ein harwahanrwydd unig fe ddaeth ef a'n dwyn i gymundeb â Duw trwy ei weddi. Molwn di am yr Ysbryd Glân sy'n ein dwyn ninnau'n awr i mewn i weddi oesol Iesu. Trwyddo ef y mae gennym ni oll ffordd i ddod, mewn un Ysbryd, at y Tad. Yn ei gnawd ei hun fe chwalodd bob canolfur gan greu un ddynoliaeth newydd wedi'i chymodi â Duw ynddo ef ei hun.

Diolch iti gynnig ein dwyn ninnau i'r ddynoliaeth newydd hon; dynoliaeth wedi'i chyfannu'n gorfforol, yn gymdeithasol, ac yn ysbrydol gan gyffyrddiad chwyldroadol ein Hiachawdwr Iesu Grist. Amen.

Saunders Davies